**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith Argyfwng COVID-19 ar Chwaraeon.**

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn cael ei ddiwygio i wneud yn siŵr nad yw unrhyw un sy'n hunangyflogedig yn y sector chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn disgyn drwy'r bylchau.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Rydym yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod cymaint o bobl hunangyflogedig yng Nghymru ag y bo modd yn gallu cael mynediad at y cynllun. Rwy'n llawn ymwybodol y bydd llawer o'r sectorau yn fy mhortffolio i ymhlith yr olaf i adfer o'r argyfwng, ac y bydd angen cymorth arnynt am gyfnod hwy. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Gweinidog yr Economi lythyr ar y cyd at Ganghellor y DU ym mis Mehefin ynghylch pwysigrwydd estyn y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, ac rydym yn parhau i gyflwyno'r achos dros y sectorau hynny sydd wedi dioddef effeithiau difrifol o ganlyniad i'r argyfwng.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol i ystyried y cymorth sydd ar gael i ymddiriedolaethau hamdden, a bod yn barod i estyn y cymorth cyhoeddus sydd ei angen i sicrhau bod ymddiriedolaethau hamdden a chlybiau cymunedol yn goroesi.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Rydym wedi bod yn trafod â Community Leisure UK, y sefydliad cynrychiadol, ac â'r gweithredwyr hamdden eu hunain drwy gydol yr argyfwng, a bydd y trafodaethau hyn yn parhau. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod y cymorth sy'n cael ei roi i helpu ymddiriedolaethau hamdden a grwpiau cymunedol. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi ymrwymo i helpu ymddiriedolaethau hamdden yng Nghymru. Mae hefyd wedi cefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddarparu cyngor i gynghorau ar gefnogi gweithredwyr hamdden. Er yr ymdrechion hyn, rydym yn gwybod y bydd

anghenion y rhannau hyn o’r sector yn y tymor hwy yn fwy na’r cymorth cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, ac rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth ychwanegol.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3:** Dylai cynllun adfer a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector fynd i’r afael â’r bwlch cynyddol eang rhwng ac o fewn gwahanol grwpiau demograffig mewn perthynas ag anweithgarwch corfforol.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Pan fydd Chwaraeon Cymru yn darparu cymorth maent yn ystyried y meysydd hynny ac arnynt yr angen mwyaf. Yn ôl Chwaraeon Cymru, bu effaith sylweddol ar lefelau gweithgarwch pobl, gyda’r effeithiau mwyaf andwyol ar rai o’r grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Roedd strategaeth Chwaraeon Cymru eisoes wedi nodi y dylid targedu adnoddau i gefnogi’r rheini sydd wedi dioddef yr effeithiau gwaethaf fel mater o flaenoriaeth. Mae’r cyfnod hwn wedi cynyddu’r angen hwnnw, nid yn unig o fewn o sector chwaraeon ond hefyd ar draws portffolios â blaenoriaeth, yn ystod argyfwng COVID-19 wrth iddo barhau ac yn y dyfodol. Mae cymorth Chwaraeon Cymru ar gyfer sefydliadau partner eisoes wedi cael ei ganolbwyntio i sicrhau bod y buddsoddiadau a’r adnoddau’n cael yr effaith fwyaf posibl wrth fynd i’r afael â’r bwlch anghydraddoldeb.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru arwain trafodaethau â chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a chwaraeon, i bennu cyfeiriad polisi cydgysylltiedig ar gyfer y tymor hwy mewn perthynas â gweithgarwch corfforol ac iechyd y cyhoedd.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau rheolaidd â phartneriaid allweddol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Cymru i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y dyfodol sy'n ymwneud â chwaraeon, gweithgarwch corfforol ac iechyd y cyhoedd. Mae eisoes strategaeth ar gyfer cysylltu iechyd a chwaraeon drwy Bartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru ac mae'r cynnydd cynnar a wnaed wedi bod yn gadarnhaol. Mae mentrau megis y Gronfa Iach a Gweithgar, a'r gweithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer yr holl deulu ac oedolion hŷn a gafodd eu hamlinellu yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, yn rhoi'r sail ar gyfer y gwaith hwn – er ei bod yn bosibl y bydd angen adolygu eu diben a'r ffordd maent yn cael eu darparu yng ngoleuni COVID-19. Mae gweithgarwch corfforol yn un o'r ymyriadau mwyaf cadarnhaol wrth helpu pobl Cymru i reoli eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u llesiant. Mae lefelau uwch o gydweithio ar draws sectorau sy'n creu rhagor o gyfleoedd hygyrch i fod yn gorfforol weithgar yn chwarae rhan bwysig yn ein cynllun ar gyfer adfer o COVID-19.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor fanylion eu trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas ag ailddechrau chwaraeon mewn modd cydgysylltiedig.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU o ddechrau'r argyfwng presennol, ac mae'n parhau i wneud hynny wrth i'r sefyllfa newid a'n canllawiau ar gynnal digwyddiadau chwaraeon unwaith eto ddatblygu.

Mae fy swyddogion yn cael trafodaeth bord gron â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon unwaith yr wythnos. Mae Cabinet Chwaraeon y DU hefyd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rhagor o drafod.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynulliadau torfol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, sy'n cydnabod nad yw dull rhy gyffredinol o weithredu'n yn addas. Dylai'r canllawiau hyn gael eu datblygu ar y cyd â chyrff llywodraethu chwaraeon a darparwyr cyfleusterau cyn gynted ag y bo modd.

**Ymateb y Llywodraeth:** Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau ar ddechrau cynnal digwyddiadau yn yr awyr agored unwaith eto mewn modd diogel a graddol, yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf ar COVID-19 a'n hadolygiadau parhaus o reoliadau'r coronafeirws yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y sector a bydd y gwaith hwnnw'n parhau wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Bydd canllawiau ar ddechrau cynnal digwyddiadau dan do unwaith eto yn dilyn maes o law. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru sy'n cynnwys perchnogion/gweithredwyr lleoliadau yn ogystal â Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid eraill ar draws ein sectorau chwaraeon a hamdden.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.